BYRDDAU DIOGELU GOGLEDD CYMRU

Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion – Beth yw Digwyddiad Dysgu i Ymarferwyr?

Pe ceid digwyddiad difrifol neu pe bai plentyn neu oedolyn yn marw, bydd y Bwrdd perthnasol yn cynnal Adolygiad Ymarfer Plant neu Adolygiad Ymarfer Oedolion.

Mae achosion o'r fath bob amser yn drist a gofidus iawn i bawb dan sylw ac mae'r cyfarfod briffio hwn wedi'i baratoi er mwyn helpu i esbonio rôl ymarferwyr yn y broses adolygu.

Nod allweddol unrhyw Adolygiad yw cydweithio ag ymarferwyr o'r holl sefydliadau a oedd yn adnabod y plentyn/plant a'u teulu, er mwyn deall a oes gwersi y gellir eu dysgu i wella dulliau ymarfer yn y dyfodol. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r broses adolygu wedi'i dylunio i rannu bai, ond i geisio deall yr hyn a ddigwyddodd a'r ystod eang o ffactorau a effeithiodd ar y ffordd yr oedd pobl yn ymateb i amgylchiadau'r achos ar y pryd.

Fel rhan o Adolygiad, gall y panel argymell bod digwyddiad dysgu i ymarferwyr yn cael ei gynnal. Gwahoddir pob ymarferydd rheng flaen â chysylltiad â'r plentyn/plant neu'r oedolyn/oedolion a'u gwahoddir teulu i fynychu.

Bydd y Digwyddiad Dysgu i Ymarferwyr yn:

- Clywed cyfrifon uniongyrchol o gysylltiad â'r plentyn/plant neu oedolyn/ oedolion a'u teulu
- Darparu cyfle i sicrhau cywirdeb 'stori' yr achos
- Darparu cyfle i ystyried a dadansoddi ymyriadau mewn amgylchedd diogel a myfyriol
- Ystyried y cyd-destun ymhle'r oedd ymarferwyr yn gweithio ar y pryd
- Archwilio pa wybodaeth, gweithgarwch neu amgylchiadau a allai fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau
- Ystyried argymhellion ar gyfer yr Adolygiad
- Darparu cyfle i ymarferwyr lunio polisi a dulliau ymarfer ar gyfer y dyfodol.

Ni fydd y Digwyddiad Dysgu i Ymarferwyr yn:

- Ceisio rhannu bai
- Tynnu sylw at ymarferwyr unigol
- Beirniadu asiantau penodol.

Hwylusir y digwyddiad gan yr adolygydd/adolygwyr annibynnol perthnasol a benodir ar ran Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru neu Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar gyfer yr achos; a'i gefnogi gan aelodau o Uned Fusnes y Byrddau Diogelu. Mae'n bosibl y bydd y Panel Adolygu, uwch gynrychiolwyr yr asiantau sy'n gysylltiedig â'r achos, hefyd yn bresennol.

Rhoddir manylion cyswllt aelodau'r Panel/Adolygwyr er gwybodaeth os cewch eich gwahodd i Ddigwyddiad Dysgu i Ymarferwyr.

I gael rhagor o wybodaeth am waith y Byrddau, ewch i'n gwefan:
http://www.northwalessafeguardingboard.wales/